ATODIAD A

# *Yr*
# *Iaith Gymraeg*
# *a*
# *Datblygu Economaidd*

Menter a Busnes

Y Parc Gwyddoniaeth

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3AH

( 01970 625561

4 01970 611366

* aber@menterabusnes.co.uk

Menter a Busnes

Uned 30, Parc Busnes Cross Hands

Heol Parc Mawr

Cross Hands, Llanelli

SA14 6RB

( 01269 844486

4 01269 844487

* crosshands@menterabusnes.co.uk

www.menterabusnes.com

# Yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 1.1. | Anghenion cyffredinol | 3 |
| 1.2. | Ffocws Ychwanegol | 3 |
| 1.3. | Ystyriaethau Ymarferol | 4 |
| 2. | Peirianwaith gweithredu integredig | 5 |
| 2.1. | Beth fyddai'n ei wneud? | 5 |
| 2.2. | Dulliau gweithredu rhaglenni gweithredu | 6 |
| 2.3. | Rheolaeth a Strwythur | 7 |
| 2.4. | Adnoddau | 7 |
| 2.5. | Proses Ddatblygu | 8 |
| 3. | Rhai syniadau newydd | 8 |
| 3.1. | Ardaloedd Datblygu | 8 |
| 3.2. | Cwmni Datblygu | 9 |
| 4. | Argymhellion | 11 |

Yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

## 1. Cyflwyniad

Ar 23ain Ionawr cyflwynodd Menter a Busnes dystiolaeth ger bron Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol, fel rhan o'r Arolwg ar yr Iaith Gymraeg. Roedd ffocws Menter a Busnes ar yr iaith a datblygu economaidd.

Yn dilyn y cyflwyniad gofynnwyd i Menter a Busnes gyflwyno mwy o wybodaeth am y syniadau a drafodwyd. Dilyniant yw'r nodyn hwn felly yn ôl y cais.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd ger bron y Pwyllgor yn cynnwys ymateb tair tudalen a phapur llawnach manylach. (Mae'r rhain ar gael os gofynnir amdanynt.)

Nodwyd yn adran olaf y papur llawn:

"Y Ffordd Ymlaen?

1. Anghenion cyffredinol

Bydd angen sicrhau bod datblygu ieithyddol yn cydweithio'n ystyrlon â'r prosesau canlynol:-

- Polisi – o fewn y CCC bydd angen ystyried wrth drafod y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol sut gall y Gymraeg gyfrannu at ei lunio a'i wireddu, mewn modd ystyrlon integredig a chreadigol. (Yn ehangach wrth gwrs bydd modd gwreiddio'r un broses o ran holl agweddau ar waith CCC.)

- Strategaeth a gwaith cyrff gweithredol sy'n ymwneud â datblygu economaidd – WDA, ELWa, Awdurdodau Lleol, Bwrdd Croeso, Gyrfa Cymru, ac eraill cysylltiol.

1. Ffocws Ychwanegol

Yn ogystal â'r anghenion cyffredinol hyn bydd angen cyfrwng penodol i archwilio'n fanwl a datblygu rhai o'r posibiliadau a godwyd yn gynt yn y papur hwn (ac eraill yn dilyn ystyriaeth fanwl). Byddai angen:

- Y modd i wireddi'r cyfleoedd gan gyfuno budd economaidd a ieithyddol mewn ffordd gyfannol, gan gyfrannu'n ymarferol at nod a strategaeth y cyrff gweithredu economaidd a ieithyddol

- I'r cyfrwng gweithredol hwn dyfu o'r agenda datblygu economaidd – o bolisïau CCC ac yn benodol o gynlluniau'r cyrff gweithredu unigol

- Cyplysu elfennau o strategaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n ymwneud â'r economi – fel bod y Bwrdd yn cyfuno'i ymdrechion gyda'r cyfeiriad newydd

- Creu'r fframwaith wybodaeth a dealltwriaeth o ran y cyswllt iaith a economi a'i gyfuno â'r broses o gynllunio i'r dyfodol.

- Datblygu dull o gyfannu'r elfennau uchod gyda ffordd o weithredu fel datblygydd a gweithredydd – fel labordy ymarferol. Bydd rhaid bod yn medru cymeryd risg wrth weithredu. Bydd y ffordd yma o weithredu yn integreiddio'n ystyrlon gyda chyrff economaidd ar un llaw a gyda'r cyrff ieithyddol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r Mentrau Iaith) ar y llaw arall.

  Bydd modd sicrhau cyfraniad at nod a gweithredu'r cyrff yma, a chreu cyfrwng i weld y gweithgaredd newydd sy'n llwyddo yn cael eu mabwysiadu'n llawn o fewn eu prif ffrwd o waith.

1. Ystyriaethau ymarferol

Mae'n ymddangos bod sawl modd o wireddu'r Anghenion Cyffredinol a'r Ffocws Ychwanegol (1.1, 1.2)

- Sefydlu'r angen i gyd-drafod dan arweiniad CCC. Gellid cyd-gynllunio a sicrhau gweithredu gan pa bynnag gyrff sy'n berthnasol. Yn ymarferol bydd y proses o bontio rhwng yr economaidd â'r ieithyddol yn dibynnu ar gyswllt rhwng sawl corff ar sawl lefel. Gall pob corff gomisiynu neu weithredu elfennau penodol. Mae'n debyg y byddai'r math yma o broses yn addas ar gyfer Anghenion Cyffredinol

- Creu corff newydd sy'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan CCC i weithredu'r holl elfennau o fewn Anghenion Cyffredinol a Ffocws

Ychwanegol. Mae'r gwendidau amlwg gyda'r opsiwn yma yn cynnwys diffyg eglurder yngln â rôl ddaearyddol y corff, a'i berthynas gyda'r cyrff economaidd a ieithyddol

- Sefydlu cyfrwng gweithredol ar y cyd – gyda'r cyrff economaidd yn cyd-ariannu ymateb cyfansawdd ar un llaw (yn cydorwedd a'u strategaethau unigol), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y llaw arall yn ychwanegu gwerth at y broses o ran yr agenda ieithyddol. Ni fyddai'r dull yma'n addas o ran yr Anghenion Cyffredinol (mae angen i bob sefydliad gydnabod ei gyfrifoldeb dros y maes). Ond o ran y Ffocws Ychwanegol byddai'n addas iawn, yn cyfuno sgiliau a phrofiad economaidd a ieithyddol, mewn cyfrwng hyd braich a fyddai'n integreiddio'r amrywiol agweddau, a fyddai'n medru cymeryd y risg a bwydo ei brofiad mewn i'r prif ffrwd.

Gweler y model trosodd

Dyma fodel posib i Ffocws Ychwanegol (1.2.)

Bydd angen o hyd ddiwallu anghenion cyffredinol a ddisgrifir (1.1.)

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| - | | | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | — | | |
| | | | | | | |
| | WDA | | | | | |
| | | | | | | |
| | ELWa | - | | | | |
| | | | Cyfrwng<br><br>integredig ymarferol i ddatblygu a gweithredu<br><br>(gweler 7.2) | | | |
| | Llywodraeth Leol | - | | - | ByIG | |
| | | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Bwrdd Croeso | - | | | | |
| | | | | | | |
| | Gyrfa Cymru | - | | | | " |

Ac roedd yr ymateb tair tudalen hefyd yn cynnwys dau syniad posib i’w datblygu (gweler 3).

## 2. Peirianwaith gweithredu integredig

Ni fyddai angen sefydlu corff newydd ar gyfer hyn.

Cynigir y gall Menter a Busnes, ar y cyd gyda’r cyrff perthnasol sy’n bodoli, fod yn ffocws ar gyfer datblygu’r swyddogaeth hon. Byddai hyn yn sicrhau bod perchenogaeth ar draws y cyrff, a bod modd cymeryd risc ystyriol yn haws.

1. Beth fyddai’n wneud?

2.1.1. Tra bod raid i’r pwyslais fod ar weithredu, bydd angen datblygu Fframwaith Ymchwil a Datblygu.

Er gwaethaf bodolaeth nifer o elfennau unigol o ymchwil gan amrywiaeth o gyrff yn y gorffennol, nid oedd amgylchiadau yn caniatáu cyfle i greu fframwaith cynhwysfawr o wybodaeth a dealltwriaeth o gysylltiadau iaith ac economi a fedrai fod yn sail ar gyfer cynllunio cyffredinol. Yn awr mae’n amserol symud tuag at fframwaith o’r fath.

Bydd raid defnyddio’r wybodaeth gyfredol a llenwi’r bylchau er mwyn sefydlu fframwaith ystyrlon a pharhaus o ddealltwriaeth ar gyfer seilio cynllunio tymor hir arno.

Bydd, wrth gwrs, yn cysylltu gyda’r amrywiaeth o ymchwil berthnasol mewn meysydd economaidd a ieithyddol yng Nghymru, ac yn ceisio dysgu oddi wrth ymarfer gorau yn rhyngwladol. Byddai meysydd o ddiddordeb ar hyn o bryd fel y cydbwysedd oedran mewn ardaloedd gwledig a datblygiadau

sectoraidd yn enghreifftiau o feysydd sy'n gysylltiedig. Bydd yr elfen hon hefyd yn sefydlu'r meincnodau ar gyfer asesu newid parhaus, a'r fframwaith gwerthuso tymor hir ar gyfer mesur effaith gweithgareddau.

2. Yn ail bydd y swyddogaeth hon a gynigir yn gweithio'n glos iawn gyda'r asiantaethau datblygu economaidd sy'n bodoli (Awdurdod Datblygu Cymru, ELWa, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdodau Lleol, Gyrfa Cymru) o ran eu strategaethau a'u rhaglenni gweithredu eu hunain i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a siaradwyr yr iaith yn cael eu gosod yn ystyrlon o fewn y gweithgareddau hyn. Bydd hyn yn sicrhau y budd economaidd mwyaf i'r gweithgareddau hyn yn ogystal ag effeithiau ieithyddol cadarnhaol. Er enghraifft gall rhaglenni penodol ar gyfer datblygu agweddau ar yr economi wybodaeth, TGC, gwasanaethau busnes, entrepreneuriaeth, sgiliau, gyrfaoedd, twristiaeth, adfywio cymunedol, prosiectau sectoraidd eraill, ac ati oll fanteisio ar yr ymagwedd hon. Yn ymarferol byddai angen i aelodau staff yr asiantaethau hyn weithio'n glos iawn (gyda secondiadau efallai) gyda'r swyddogaeth hon, a gyda'i gilydd.

   Bydd y swyddogaeth hon â chyswllt strategol gyda'r ffocws dwyieithrwydd sy'n cael ei ddatblygu o fewn ELWa, gan sicrhau bod gwaith ELWa o ran magu ymwybyddiaeth, a chynyddu a chwrdd â galw gan gyflogwyr yn integreiddio â'r darlun datblygu economaidd cyfan.

   Gall diddordebau economaidd cyrff iaith-benodol (Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn arbennig, a'r Mentrau Iaith) weithio mewn ffordd debyg, ac ar y cyd gyda'r asiantaethau economaidd.

   Byddai'r ymagwedd hon hefyd yn berthnasol yn yr amrywiaeth o weithgareddau sydd gan Menter a Busnes ei hun.

   Byddai'r elfen hon yn cynnig peirianwaith ystyrlon ac ymarferol ar gyfer integreiddio – yr allwedd i ddatblygu economi-iaith.

3. Yn ychwanegol at weithio o fewn y strategaethau a'r rhaglenni cyfredol bydd y swyddogaeth hon (eto ar y cyd gyda chyrff perthnasol eraill) yn ceisio datblygu syniadau newydd ar gyfer gweithredu (neu gyfuniadau newydd) o fewn yr arena economi-iaith. Bydd y gallu i geisio a threialu'r syniadau newydd hyn yn hanfodol o fewn y swyddogaeth a gynigir. Nodir y ddwy enghraifft o'r math o syniadau (enghreifftiau'n unig rhaid pwysleisio) a godwyd gyda'r Pwyllgor ym

mhwynt 3 isod.

1. Dull gweithredu’r rhaglenni ymarferol

   Gall y math o brosesau fyddai’n angenrheidiol gynnwys y camau canlynol – staff Menter a Busnes yn gweithio gyda’r ystod o gyrff (ar y cyd neu ar wahân fel sy’n addas)

- Dynodi anghenion;

- Sefydlu tîm ymgynghorol (staff + arbenigwyr);

  - Cwblhau asesiad, ymchwil addas a chynllunio gwerthusiad;
  - Cynllunio’r gweithgaredd datblygu cychwynnol;
  - Cynllunio’r broses ar gyfer cysylltu gyda’r brif-ffrwd;
  - Sicrhau adnoddau ar gyfer y gweithgaredd datblygu;
  - Gweithredu’r gweithgaredd datblygu cychwynnol;
  - Gwerthuso parhaus ac adolygu defnyddioldeb ehangach;
  - Ei drosglwyddo i’r brif-ffrwd;
  - Cynorthwyo/cynghori ar ddarparu yn y brif-ffrwd.

  Gall proses o’r fath fod yn berthnasol i weithgareddau ar raddfa fechan a rhaglenni mawr, y gallai’r amserlen ar eu cyfer amrywio o 6 mis i 5 mlynedd.

1. Rheolaeth a Strwythur

   (Byddai’r manylion yn dod yn eglur yn ystod y Broses Ddatblygu isod.)

   Byddai dau lefel o reolaeth yn angenrheidiol –

   Yn gyntaf byddai cyfarwyddo a rheoli cyfeiriad strategol cyffredinol yn ei gwneud yn ofynnol cael cynrychiolaeth ar lefel uchel o’r cyrff perthnasol (ADC, ELWa, Bwrdd Croeso, Gyrfa Cymru, CLlLC, Bwrdd yr Iaith Gymraeg) i weithredu fel grp llywio/pwyllgor/bwrdd ar ba bynnag ffurf sy’n briodol i sicrhau ymroddiad tymor hir ystyrlon (yn hytrach na threfniant tymor byr ad hoc). Ni fyddai’n rhaid creu corff/endid newydd gan y gall Menter a Busnes (fel cwmni cyfyngedig trwy warant) addasu ei strwythur yn hawdd o gwmpas peirianwaith o’r fath.

   Yn ail bydd y timau fyddai’n gweithio ar weithgaredd penodol (fel y’u disgrifir yn 2.2.) yn rheoli eu rhaglen waith ac yn adrodd i’r swyddogaeth

reoli gyffredinol.

2. Adnoddau

   (Eto byddai'r manylion yn cael eu pennu yn y Broses Ddatblygu isod.)

   Bydd y math o adnoddau angenrheidiol yn cynnwys:

- Adnoddau craidd – ar gyfer elfennau datblygu ymchwil a gwerthuso, ac ar gyfer cychwyn a threialu syniadau a gweithgareddau newydd. Mae'r swyddogaethau craidd cyfredol ym Menter a Busnes yn costio tua £250,000 y flwyddyn – byddai'n rhaid i hyn gael ei gynyddu wrth gwrs. Mae rhai o'r adnoddau hyn eisoes o fewn y system o ran contractau am wasanaethau craidd a phrosiectau. Ond bydd raid asesu graddfa'r adnoddau fydd yn angenrheidiol yn y dyfodol. Nid gwaith byr dymor yw'r math hwn o waith – felly mae'r angen am ymrwymiad tymor hir yr un mor bwysig â graddfa adnoddau.

- Adnoddau ar gyfer rhaglenni gweithredu – amhosibl asesu cyn i'r Broses Ddatblygu gael ei chynnal. Unwaith eto bydd llawer o'r adnoddau eisoes yn y system. Ond bydd raid asesu graddfa'r gofynion yn y dyfodol yn yr un modd.

1. Y Broses Ddatblygu

   Cynigir cyfnod datblygu o chwe mis i greu fframwaith deng mlynedd, a chynllun gweithredu manwl am dair blynedd.

   Bydd y broses yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu Grp Ymgynghorol/Datblygu dros dro gyda chynrychiolwyr o'r cyrff economaidd a ieithyddol a restrwyd eisoes; cyswllt gyda CCC fel sy'n briodol; a'r gallu i ddefnyddio arbenigwyr allanol yn ôl y gofyn. Bydd y Grp yn cael ei gefnogi a bydd y gwaith manwl yn cael ei ddarparu gan Menter a Busnes (gan ddefnyddio adnoddau cyfredol) gyda chyrff fydd yn bartneriaid.

   Bydd y Grp yn:

- Asesu anghenion ymchwil datblygu a gwerthuso, ac yn dylunio'r fframwaith angenrheidiol

- Dysgu oddi wrth arfer da yn rhyngwladol
- Datblygu’r model ymarferol ar gyfer cysylltu gyda strategaethau a rhaglenni gweithredu sy’n bodoli
- Cynllunio’r broses o geisio a datblygu syniadau newydd
- Datblygu cynlluniau gweithredu manwl a chostio ar gyfer 2-3 syniad newydd
- Asesu graddfa’r adnoddau craidd sy’n ofynnol
- Dylunio’r strwythur rheoli tymor hir

## 2. Rhai syniadau newydd

Cyflwynwyd dau syniad i’w datblygu yn ystod y cyflwyniad i’r Pwyllgor Diwylliant – dylid pwysleisio mai dim ond enghreifftiau yw’r rhain i ddangos y math o syniadau y gellid eu datblygu o fewn y peirianwaith integredig a gynigir yn 2.

1. Ardaloedd Datblygu

   "Cymeryd 3 ardal (a chyfartaledd cymharol uchel o siaradwyr Cymraeg) a dros gyfnod o 5-10 mlynedd datblygu dull o gyfuno pob math o weithgaredd presennol a newydd sy’n ymwneud â’r iaith yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ee

   - Gweithgaredd Mentrau Iaith / Bwrdd yr Iaith Gymraeg
   - Rhaglenni Menter a Busnes
   - Gweithgaredd cynllunio, defnydd tir / eiddo
   - Gweithredu datblygu economaidd cyffredinol
   - Gwasanaethau addysg hyfforddi
   - Gwasanaethau datblygu cymdeithasol a chymunedol
   - Datblygu gweithgaredd newydd i gwrdd ag anghenion penodol
   - (ac yn y blaen)

Gweithredu mewn ffordd gyfannol byddai’r ffocws. Hefyd bydd angen clir i astudio’n fanwl effaith yr holl waith, ac elfen o gymhariaeth drylwyr gyda ardaloedd arall tebyg sydd ddim yn gweithredu yn y modd hwn."

Ardaloedd – Amrywiaeth o fathau o ardaloedd ieithyddol, ond yn bennaf ardaloedd gyda chyfran uwch o siaradwyr Cymraeg (er enghraifft: Lln, Dyffryn Conwy, Cwm Tawe Aman Gwendraeth, Bro Ddyfi, Preseli, ac ati) gydag un enghraifft o ardal gyda chynnydd yn y siaradwyr Cymraeg – Caerdydd, Rhondda Cynon Taf.

Cychwyn gyda 3 ardal – ychwanegu 1-2 arall dros gyfnod o 2-3 mlynedd. Dylai maint yr ardal gael ei bennu gan y dalgylch teithio i’r gwaith naturiol – yn fwy na chymunedau unigol/wardiau, ond yn llai na siroedd cyfan.

Integreiddio – Byddai angen cysylltu gydag unrhyw fentrau daearyddol eu ffocws fel Cymunedau’n Gyntaf, Trefi Marchnad, ac yn amlwg gyda’r cyrff economaidd a ieithyddol lleol.

Gwerthuso – cyflwr yr economi a’r iaith ar hyn o bryd (meincnod). Olrhain y newidiadau yn ofalus ac effeithiau cysylltiedig y gweithgareddau. Sefydlu ardaloedd i gymharu (h.y. heb eu cynnwys).

Gweithgareddau – fel y mae’n cael ei amlinellu uchod dylai’r ffocws fod ar gyfuno pob math o weithgaredd (cyfredol a newydd) yn ymwneud yn uniongyrchol ac anuniongyrchol â’r economi a datblygu iaith. Byddai rhaid dylunio a chytuno yn fanwl ar yr amrediad o weithgareddau anuniongyrchol, yn arbennig, cyn cychwyn.

Proses Ddatblygu – 6-12 mis i ddylunio, ymchwilio/meincnodi, cytuno gyda’r cyrff sy’n cymryd rhan, datblygu swyddogaeth reoli a chydlynu, a chreu cynllun gweithredu.

Rhaid sicrhau ymrwymiad tymor hir (10 mlynedd).

Mae’r broses ddatblygu ei hun yn debygol o fod angen adnoddau penodol o tua £200,000 (12 mis).

Adnoddau – gan y bydd yr ymagwedd yn ei hanfod yn ymwneud â chyfuno gweithgareddau dylai’r adnoddau ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau hyn fod yn fychan iawn. Sut y mae adnoddau amrywiol gyrff (pobl ac arian) yn cael eu defnyddio yw’r cwestiwn allweddol.

Bydd angen adnodd cydlynu bychan (tua £60-70,000 yr ardal y flwyddyn, a chronfa ganolog ar gyfer datblygu a gwerthuso o tua £200,000 y flwyddyn). Amcanion bras iawn yw'r rhain wrth gwrs – tan i'r Broses Ddatblygu cael ei gwblhau.

1. Cwmni Datblygu

"Cwmni Cymraeg ei iaith yn gallu datblygu cyfleoedd yn uniongyrchol ym meysydd addas – fel cyfathrebu, aml-gyfryngedd, yr amgylchedd, twristiaeth a hamdden, ac eraill iaith benodol.

Bydd y cwmni yn proactif, yn chwilio am gyfleoedd, a phartneriaid (preifat a chyhoeddus), ac yn gwneud pethau i ddigwydd.

Bydd ganddo adnoddau sylweddol, a bydd yn gweithredu'n fasnachol ei hun – gyda'r bwriad o drosi elfennau wedi eu datblygu i'r sector breifat yn gyfan gwbl yn y pendraw.

(Yn naturiol bydd angen sicrhau integreiddio gyda gweithgaredd datblygu economaidd cyffredinol)."

<u>Y Cwmni</u> – y fformat i'w bennu. Rhaid iddo fedru mentro a gweithredu'n fasnachol. Felly rhaid iddo fod un/ddau gam i ffwrdd oddi wrth y sector cyhoeddus. (Hefyd i osgoi gweithredu'n or- fiwrocrataidd). Cymysgedd o sector preifat/cyhoeddus. Rhaid iddo fod yn fwy na chorff ariannu– h.y. yn medru gweithredu'n uniongyrchol yn fasnachol ei hun.

<u>Integreiddio</u> – rhaid i'r corff fod yn integredig â datblygiadau gan ADC, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa ac awdurdodau lleol.

<u>Rhagweithiol</u> – yn ceisio cyfleoedd a phartneriaid datblygu sector preifat, ac yn symbylu gweithgaredd.

<u>Sectorau</u> – ffocws ar y rhai iaith/diwylliant gysylltiedig (yn yr ystyr ehangaf).

Bydd yn canolbwyntio ar y bylchau na fyddai'n cael eu llenwi gan y sector preifat heb y broses ddatblygu gychwynnol – h.y. ni fydd yn cymryd lle gweithgareddau sector preifat ond bydd yn sicrhau datblygiad tymor hir llawn gan y sector preifat. Ffocws clir ar sectorau/cyfleoedd neu gyfuniadau gyda photensial gwerth uchel.

Er enghraifft:

- Datblygu mentrau masnachol newydd wedi eu seilio ar ddatblygiadau technegol ym maes gwasanaethau cyfieithu (yn amlwg mewn cysylltiad â chwmnïau sefydledig) nid yn unig Cymraeg/Saesneg ond ieithoedd eraill yng Nghymru a thu allan

- Creu ffransheis t bwyta Cymraeg o ansawdd uchel, modern, blaengar, gyda enghreifftiau trwy Gymru, ac mewn gwledydd eraill (eto mewn partneriaeth â'r profiad masnachol mwyaf perthnasol)

- Sefydlu cwmni gwerth uchel gyda marchnadoedd rhyngwladol yn darparu gwasanaethau addysgol arbenigol yn gysylltiedig â anghenion aml-ieithog (deunyddiau aml-gyfrwng, ymgynghoriaeth, datblygiadau newydd, a.y.y.b.)

  Ariannu – angen peth staff craidd, timau datblygu sector preifat/cyhoeddus ac arbenigedd y gellir ei ddwyn i mewn, adnoddau ymchwil marchnad a datblygu cynnyrch, adnoddau buddsoddi, gydag unrhyw "spin-out" llwyddiannus yn talu % yn ôl i'r gronfa graidd. Mae'n amhosib nodi costau manwl nes i'r cyfnod Datblygu cael ei gwblhau ond gallai fod tua:

  Staff - £200,000 y flwyddyn

  Adnoddau Datblygu - £500,000 y flwyddyn

  Cronfa - £2-3 miliwn (unwaith)

  Rheolaeth – cadeirydd ac aelodau sector preifat, gyda chynrychiolwyr o ADC, Bwrdd Croeso Cymru, ELWa, ac ati.

  Proses – yn fras bydd raid i bob menter fasnachol unigol:

- Sganio'r sectorau gan nodi'r mathau o gyfleoedd posibl

- Asesu'r potensial ar gyfer perchnogaeth tymor hir gan y sector preifat

- Gweithgareddau ymchwil cychwynnol

- Chwilio am bartneriaid sector preifat/cyhoeddus perthnasol

- Ymchwil marchnad benodol

- Datblygu cynnyrch/gwasanaeth

- Profi’r farchnad (ac ailadrodd y camau hyn yn ôl y gofyn)
- Asesu hyfywedd tymor hir
- Cynllunio busnes manwl
- Gweithredu masnachol llawn
- Trosglwyddo i’r sector preifat yn y pen draw

<u>Cyfnod Datblygu</u>

Angen 12-18 mis i:

- Asesu ymarfer gorau yn rhyngwladol
- Dylunio yn fanwl
- Cytuno ar y sectorau cychwynnol a’r partneriaid
- Dichonolrwydd a chynllunio busnes
- Codi arian

Mae’r cyfnod hwn yn debygol o fod angen cyllid o tua £100,000.

## 2. Argymhellion

Ar y thema datblygu economaidd rydym yn awgrymu bod Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg yn argymell datblygu peirianwaith integredig ar gyfer gweithredu ar sail y model a amlinellir yn y papur hwn, ac yn cyfarwyddo’r prif asiantaethau economaidd a datblygu sgiliau a’r cyrff perthnasol sy’n ymwneud â’r Iaith Gymraeg i ddatblygu’r model fel y’i disgrifir, ar y cyd gyda Menter a Busnes.

Er mai dim ond enghreifftiol yw’r ddau syniad penodol a amlinellir yn y papur hwn (*Cwmni Datblygu ac Ardaloedd Datblygu), os gwêl y Pwyllgor ryw rinwedd mewn cychwyn ar y gwaith o baratoi cynlluniau manwl, byddem yn naturiol yn cynnig bod gwaith o’r fath yn cael ei wneud yng nghyd-destun y peirianwaith a amlinellir. Gellid cychwyn y broses ar fyr rybudd.

Byddai Menter a Busnes yn hapus i drafod cynnwys y nodyn hwn gyda awduron yr elfennau o’r Adroddiad terfynol a fydd yn ymwneud â datblygu economaidd, os dymunir hynny.

Menter a Busnes

Chwefror 2002